

HYSBYSEB

Garddwriaethydd

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

Rydym yn cynnig cyfle i arddwriaethydd brwd sy'n meddu ar frwdfrydedd a gallu dilys i fod yn rhan o'n tîm medrus, ymrwymedig. Mae hwn yn gyfle unigryw i weithio gyda'r casgliad amrywiol o blanhigion yng Ngardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, ac i feithrin gwybodaeth a sgiliau newydd.

Byddwch eisoes yn arddwriaethydd medrus a chymwysedig, a bydd gennych ddi-ddordeb brwd yn y gwaith o feithrin planhigion i ddibenion ymchwil, cadwraeth ac addysg, ac i'w harddangos. Byddwch hefyd yn drefnus iawn ac yn meddu ar y gallu i weithio i lefel uchel o gyfrifoldeb personol gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl. Mae gweithio mewn tîm yn rhan bwysig o'r rôl, felly bydd angen i chi fod yn gydweithredol ac i feddu ar sgiliau cyfathrebu da. Mae cywirdeb o ran cynnal cofnodion planhigion a dealltwriaeth o rôl gerddi botaneg hefyd yn bwysig. Byddai tystysgrifau PA1 a PA6, defnydd diogel o bleleiddiaid, ynghyd â rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar yn fanteisiol.

Manylion am y swydd

Swydd barhaol yw hon, a fydd yn cychwyn ar y dyddiad cynharaf y gellir ei drefnu. Yr oriau gwaith yw 37.5 awr yr wythnos, sef 8am tan 4pm fel arfer. Disgwylir i chi weithio ar y penwythnos ar sail rota. Y cyflog yw £17,088.00 y flwyddyn.

Croesewir ymholiadau anffurfiol, a dylid eu cyfeirio at Will Ritchie, Curadur Garddwriaeth, yn will.ritchie@gardenofwales.org.uk.

Gwneud cais

Dylid anfon ceisiadau, a fydd yn cynnwys CV cyfredol a llythyr cyflwyno, sy'n esbonio'n glir sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf a pha briodoleddau y gallwch eu cynnig i'r ardd, ynghyd â **manylion cyswllt llawn dau ganolwr**, trwy e-bost at Dawn Moore yn dawn.moore@gardenofwales.org.uk.

Amserlen

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 15 Medi 2019, a bwriedir cynnal y cyfweliadau yn yr wythnos sy'n dechrau ar 23 Medi 2019.

Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru Swydd-ddisgrifiad

Teitl swydd	Garddwriaethydd
Adran	Garddwriaeth
Yn adrodd i	Uwch-arddwriaethydd
Yn gyfrifol am	Dysgwyr a gwirfoddolwyr

Diben y rôl

Gweithio fel aelod o'r tîm Garddwriaeth yn yr Ardd er mwyn cyfrannu mewn modd gweithredol at y gwaith o ddydd i ddydd o gynnal a gwella'r adnoddau, yr arddangosfeydd a'r mentrau garddwriaethol, gan gefnogi cenhadaeth yr Ardd.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

Disgwylir y bydd holl aelodau'r tîm Garddwriaeth yn gweithio mewn modd cyson a chyfrifol, a hynny yn unigol ac fel aelodau o'r tîm, er mwyn datblygu'r casgliad o blanhigion a chynyddu lefelau eu sgiliau a'u cymhwysedd eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys ond nid yn gyfyngedig i'r canlynol:

1. Cyflawni'r holl dasgau garddwriaethol angenrheidiol i gynnal a gwella'r casgliad o blanhigion.
2. Cynllunio a blaenoriaethu tasgau garddwriaethol.
3. Cynnal cofnodion cywir o'r planhigion, a sicrhau bod y labeli yn gywir lle bo hynny'n briodol.
4. Goruchwyllo dysgwyr a gwirfoddolwyr o ddydd i ddydd a chynllunio gwaith ar eu cyfer.
5. Cyflwyno'r Ardd i'r cyhoedd sy'n ymweld â hi, gan helpu i wella eu dealltwriaeth a'u mwynhad trwy ateb cwestiynau a chynnal anerchiadau, arddangosiadau a theithiau.
6. Cymryd rhan weithredol yn y gwaith o ymchwilio i'r planhigion yn y casgliad, ynghyd â'r gofynion o ran eu meithrin.
7. Cynorthwyo i gynllunio a datblygu'r casgliad o blanhigion.
8. Ysgwyddo cyfrifoldeb am eich arferion gweithio eich hun mewn perthynas â phrotocolau iechyd a diogelwch.
9. Mynychu gweithdai, cyfarfodydd a sesiynau hyfforddi, a chymryd rhan weithredol ynddynt.
10. Cyfrannu at y trefniadau ar gyfer digwyddiadau, gweithgareddau, sioeau a gwaith allgymorth yn yr Ardd, a chymryd rhan yn y digwyddiadau hynny.

Manyleb y person

Isod gwelir y meini prawf a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r rôl. Mae'r wybodaeth hon ar gael yn agored i ymgeiswyr, a bydd yn sail i'r broses recriwtio a dethol. Dim ond yr ymgeiswyr hynny sy'n bodloni'r meini prawf hyn mewn modd digonol a fydd yn cael eu hystyried.

Y meini prawf y disgwylir i'r ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth ar eu cyfer:	
<i>Meini Prawf Hanfodol</i>	
1	Cymhwyster lefel 2 neu gyfwerth mewn garddwriaeth neu bwnc perthnasol.
2	Tystiolaeth o gymhwysedd, sgil a diddordeb yn y gwaith o gynnal a chadw casgliadau o blanhigion ar gyfer ymchwil wyddonol, cadwraeth, addysg ac i'w harddangos.
3	Sgiliau trefnu profedig a'r gallu i roi sylw i fanylion, ynghyd â'r gallu i weithio i lefel uchel o gyfrifoldeb ac atebolrwydd personol gyda chyn lleied o oruchwyliaeth â phosibl.
4	Y gallu i weithio fel aelod o dîm, gan ddirprwyo ar gyfer eraill, a gweithio mewn modd effeithiol a chydweithredol.
5	Sgiliau cyfathrebu rhagorol: llafar, ysgrifenedig a rhyngpersonol, gydag ymdeimlad datblygedig o ffocws ar y cwsmer.
6	Y gallu corfforol i ymgymryd â thasgau egniol.
7	Y gallu i gynnal cofnodion cywir o'r planhigion, a sicrhau bod y labeli yn gywir lle bo hynny'n briodol.
8	Y gallu i oruchwyllo dysgwyr a gwirfoddolwyr.
9	Tystiolaeth o wybodaeth o ddydd i ddydd am arferion gweithio diogel mewn perthynas â gweithrediadau a gweithgarwch garddwriaethol.
<i>Meini Prawf Dymunol</i>	
10	Dyfarniad NPTC lefel dau mewn Defnydd Diogel o Blaleiddiaid (PA1 a PA6) neu gyfwerth.
11	Rhuglder mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar